Dewis cartref gofal

Bydd gan bawb farn wahanol am yr hyn sy'n gwneud cartref 'da' a bydd anghenion pawb yn wahanol hefyd. Dyma rai cwestiynau i'w hystyried. Efallai y bydd rhai'n bwysicach i chi nag eraill. Dyma rai cwestiynau y gallech eu gofyn wrth ddewis cartref gofal.

Cwestiynau i'w hystyried

Y lleoliad a'r adeilad

Lle mae'r cartref?

A fydd y teulu a ffrindiau'n gallu dod yno'n hwylus?

A oes cysylltiadau trafnidiaeth gerllaw?

A oes cyfleusterau fel siopau, tafarndai, parciau ac addoldai o fewn cyrraedd hwylus?

Pa mor hawdd yw symud o gwmpas yn y cartref?

A fydd yn hawdd i chi fynd i mewn a dod allan o'r adeilad, a symud o ystafell i ystafell ac o lawr i lawr?

A oes modd defnyddio cadair olwyn yn hwylus yn y cartref?

A oes yna lifft?

Ydi'r cartref yn teimlo'n lân ac yn groesawus?

A oes arogleuon drwg yno?

Ydi'r ystafelloedd yn teimlo'n boeth a mwll neu'n oer a drafftiog?

A oes rhannau neilltuol o'r cartref ar gyfer ysmygu a rhannau di-fwg?

A oes yno awyrgylch braf a chyfeillgar?
A fyddwch chi'n teimlo'n gyfforddus yn sgwrsio ac yn cymdeithasu yn rhannau cyhoeddus y cartref?

Ydi'r cadeiriau wedi'u gosod mewn grwpiau neu o gwmpas ymylon yr ystafelloedd?

A oes ystafell fyw dawel lle allwch ddarllen yn ogystal ag un â theledu?

Ydi'r ystafelloedd yn weddol o faint?

A gewch chi ystafell i chi'ch hunan?

A oes dewis o ystafelloedd – e.e. heulog, cysgodol, tawel?

A oes cyfleusterau en suite neu fasnau ymolchi yn yr ystafelloedd?

A gewch chi ddod â'ch pethau chi'ch hunan fel planhigion, lluniau a dodrefn?

A gewch chi ddod ag anifail anwes gyda chi?

A ydych yn meddwl y gallwch setlo yn y cartref?

A fyddai'n well gennych gartref mwy neu un llai?

Dewis cartref gofal – Cwestiynau i'w hystyried

Bywyd o ddydd i ddydd

A oes rhywle preifat lle gallwch ddefnyddio'r ffôn?

A fyddwch yn cael cysylltu â'r rhyngrwyd, naill ai yn eich ystafell neu ar gyfrifiadur i'w rannu?

A oes llyfrau a phapurau newydd ar gael?

A oes llyfrgell deithiol yn galw?

Ydi'r cartref yn trefnu i fynd i siopa, i ganolfannau adloniant neu i addoldai?

A oes gweithgareddau corfforol fel garddio neu grwpiau ymarfer corff?

Sut fyddwch chi'n cael gwybod am ddigwyddiadau a gynhelir?

A fydd anogaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gwneud cymaint ag y gallwch drosoch chi'ch hunan?

Ydi'r drysau allanol yn cael eu cadw ar glo?

A gewch chi fynd allan am awyr iach pan fynnwch?

A gewch chi wneud dewisiadau am eich trefn o ddydd i ddydd?

A fyddwch chi'n cael codi a mynd i'r gwely pan fynnwch?

A gewch chi ddewis pa ddillad i'w gwisgo o ddydd i ddydd?

A oes cyfyngiadau ar yr amserau ymweld neu nifer yr ymwelwyr?

Lle gewch chi dreulio amser gyda'ch ymwelwyr?

A oes cyfleusterau i ymwelwyr aros dros nos?

A oes croeso i blant ifanc?

Ydi'r cartref yn addas ar gyfer eich anghenion diwylliannol a chrefyddol?

A oes rhai o'r staff yn siarad eich iaith?

A all y cartref ddarparu bwyd sy'n addas ar gyfer eich anghenion?

A oes rhai o'r preswylwyr o gefndir tebyg i chi?

A oes dewis o fwyd a phryd a lle y gallwch ei fwyta?

Pa ddarpariaeth sydd yna ar gyfer deiets arbennig?

A gewch chi baratoi bwyd a diod i chi'ch hunan?

Ydi'r preswylwyr yn mwynhau'r bwyd ac a gewch chi ei brofi?

A yw manylion y drefn gwyno ar gael yn hwylus?

A ydi'r cartref yn eich annog i ddweud eich barn am y gofal etc?

A oes pwyllgor preswylwyr?

A oes gwasanaethau eiriol ar gael i'r preswylwyr?

Dewis cartref gofal – Cwestiynau i'w hystyried

Eich anghenion o ran gofal

Ydi'r cartref wedi'i gofrestru i gynnig y gofal y mae arnoch ei angen?

A yw'n ymddangos bod ar y preswylwyr eraill angen tua'r un faint o ofal â chi?

Beth sy'n digwydd os yw'ch anghenion yn newid neu'n cynyddu?
A oes cyfleusterau bathio sy'n addas ar eich cyfer yn y cartref?
Os bydd arnoch angen help i gael bath, pwy fydd yn eich helpu?

A gewch chi ddewis pa mor aml i fynd i'r bath neu'r gawod?

A oes toiledau ar gael ym mhob rhan o'r cartref?

A oes canllawiau a chymhorthion eraill ynddynt?

A gewch help i fynd i'r toiled os bydd angen?

Pryd y mae padiau gwlychu/ baeddu a cathetrau'n cael eu defnyddio?

A fydd gennych eich meddyg teulu chi'ch hunan a chyfle i ddefnyddio gwasanaethau iechyd eraill fel optegyddion a deintyddion?

Pwy sy'n penderfynu pryd y mae arnoch angen archwiliad?

Sut y bydd y cartref yn rhoi gwybod i'ch teulu a'ch ffrindiau os byddwch yn sâl?

Faint o staff sydd yn y cartref ar gyfer pob preswyliwr?

Sut maen nhw'n cael eu hyfforddi?

A oes rheolwr ar ddyletswydd bob amser?

A oes llawer o fynd a dod ymhlith y staff?

Dewis cartref gofal – Cwestiynau i'w hystyried

Contractau a ffioedd

A gewch chi weld copi o daflen y cartref?

A gewch chi weld copïau o adroddiadau'r archwiliadau diweddaraf?

A gewch chi weld copi o gontract/ amodau ysgrifenedig y cartref?

Beth yw ffioedd y cartref?

Ydi hi'n glir sut y mae'r ffioedd yn cael eu trefnu a'u cyfrifo?

Sut y rhoddir cyfrif am daliadau gofal nyrsio y GIG?

Sut y caiff y ffioedd eu casglu?

Ydi preswylwyr sy'n talu am eu gofal eu hunain a rhai sy'n cael cymorth yr awdurdod lleol yn talu'r un cyfraddau?

A oes angen i breswylwyr sy'n cael cymorth yr awdurdod lleol dalu taliad atodol?

A oes rhestr a chyfrif clir o eitemau ychwanegol sydd heb eu cynnwys yn y ffioedd sylfaenol?

Beth yw'r trefniadau ar gyfer trafod eich arian personol?

Sut mae eich pethau gwerthfawr yn cael eu cadw'n ddiogel?

Beth yw'r amodau yn y contract ar gyfer rhoi rhybudd ymadael?

A oes ffioedd i'w talu ar ôl i breswylydd farw?

Pa mor fuan mae'n rhaid clirio ystafell rhywun ar ôl iddynt farw?

Cysylltiadau defnyddi

Age Cymru
Tŷ John Pathy
13/14 Cwrt Neptune
Ffordd Blaen y Gad
Caerdydd CF24 5PJ

Llinell Gymorth: 0800 169 65 65
Gwefan: www.agecymru.org.uk
E-bost:enquiries@agecymru.org.uk

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
4-5 Charnwood Court
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Nantgarw CF15 7QZ

Ffôn: 01443 848 450
Gwefan: www.cssiw.org.uk
E-bost: cssiw@wales.gsi.gov.uk

Hugh James Solicitors
Hodge House
114-116 Heol y Santes Fair
Caerdydd CF10 1DY

Ffôn: 029 2022 4871
Gwefan: www.hughjames.co.uk
E-bost: nursing.care@hughjames.com

Comisiwn Ansawdd Gofal / Care Quality Commission
Citygate
Gallowgate
Newcastle Upon Tyne NE1 4PA
Ffôn: 03000 61 61 61
Gwefan: www.cqc.org.uk
E-bost: enquiries@cqc.org.uk

Elderly Accommodation Counsel
3rd Floor
89 Albert Embankment
Llundain/London SE1 7TP
Ffôn: 020 7820 1343
Gwefan: www.housingcare.org
E-bost: enquiries@eac.org.uk

Gallwch chi helpu Age Cymru?
Eich cefnogaeth a'ch rhoddion chi sydd yn ein gwneud ni yr elusen pobl hŷn flaenllaw yng Nghymru. Ffoniwch 029 2043 1555 neu ymwelwch a'n safle gwe www.agecymru.org.uk/donate

Mae Age Cymru yn elsuen gofrestredig 1128436.
Cyfeiriad ein swyddfa gofrestredig:
Tŷ John Pathy, 13/14 Cwrt Neptune, Ffordd Blaen y Gad, Caerdydd CF24 5PJ.

Mae Age Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag Age Concerns lleol.

© Age Cymru a Hugh James Solicitors

Elusen Gofrestredig: 1128436

Age Cymru is the new force combining
Age Cymru yw y grym newydd sy'n cyfuno
AGE Concern Cymru
HELP THE AGED WE WILL
Help the Aged yng Nghymru
Help the Aged in Wales
Age Cymru is working in partnership with local Age Concerns
Mae Age Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag Age Concerns lleol